PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 14 Ionawr 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
A. Lenny, S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips a J.E. Williams

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd D. Cundy a S. Davies ynghylch cais cynllunio S/39358;
Mr G. Morgan, Cynlluniwr Trafnidiaeth gyda Fframwaith Atkins

Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain);
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio)
E. Jones, Swyddog Rheoli Datblygu
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin: 11.30 am - 3.00 pm

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A.C. Jones a G.B. Thomas.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL.

Enw	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd Dot Jones	5 – Cais S/39358 newid defnydd preswylfa o Ddosbarth C3 i Gartref preswyl plant Dosbarth C2 yn 2 Erw Las, Llwynhendy, Llanelli, SA14 9SF	Roedd y gŵr yn gysylltiedig â'r ymgeisydd o'r blaen;
Y Cynghorydd Dot Jones	6 - Cais W/39441 bwriad i agor Canolfan Iechyd a Llesiant Cross Hands yn Uned 1, Parc Maes Yr Eithin, Cross Hands, Llanelli, SA14 6SY;	Wedi siarad am y mater hwn mewn cyfarfodydd cymuned lleol.
John Thomas (Uwch-swyddog Rheoli Datblygu)	6 - Cais W/39822 estyniad i ddarparu storfa o ran peiriannau, gwellt a gwasarn yn Nantygelli, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin, SA33 6UT	Ymgeisydd yn berthynas

3. S/38285 - ADEILADU DATBLYGIAD PRESWYL SY'N CYNNWYS HYD AT 210 O UNEDAU YNGHYD Â GWAITH TIRWEDDU A SEILWAITH CYSYLLTIEDIG AR DIR YN NOC Y GOGLEDD, SEASIDE, LLANELLI, SA15 2LY

Cyfeiriodd y Swyddog Rheoli Datblygu at ymweliad preifat y Pwyllgor â'r safle'n gynharach y diwrnod hwnnw (gweler cofnod 4.1 o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 12 Rhagfyr 2019) a oedd wedi ei gynnal er mwyn i'r Pwyllgor weld yr effaith y gallai'r datblygiad ei chael yn weledol ac o ran y rhwydwaith ffyrdd lleol. Cyfeiriodd, gyda chymorth sleidiau PowerPoint, at adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio a oedd yn rhoi arfarniad o'r safle, ynghyd â disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig, crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a gwybodaeth am y polisïau lleol a chenedlaethol a oedd yn berthnasol wrth asesu'r cais. Dywedodd fod y Pennaeth Cynllunio yn argymell cymeradwyo'r cais am y rhesymau y manylwyd arnynt yn yr adroddiad ysgrifenedig.

PENDERFYNWYD caniatáu Cais Cynllunio S/38285 yn amodol ar yr amodau yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio ac ar yr amod ychwanegol na fydd unrhyw waith yn dechrau ar y safle hyd nes bod y gwaith bwriadedig o wella priffyrdd ar hyd yr A484 yn Sandy wedi'i gwblhau.

4. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

E/39454	**Newidiadau, adnewyddu a helaethu yn ogystal â dymchwel y strwythurau diangen a'r wal derfyn. Newid defnydd rhannau o'r adeilad i fod yn ddosbarth A1 (adwerthu), A3 (bwytai a chaffi), B1 (busnes) a D2 (ymgynnull a hamdden, prif ran neuadd y farchnad i fod â defnydd cymysg (dosbarthiadau A1, B1 a D2) yn hen neuadd y farchnad, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, SA19 6AE**

5. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio'r cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-

S/39358	**Newid defnydd preswylfa o ddosbarth C3 i Gartref preswyl plant Dosbarth C2 yn 2 Erw Las, Llwynhendy, Llanelli, SA14 9SF** [Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd D. Jones Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno]. Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle er mwyn gweld y safle a'r briffordd leol. Y RHESWM: Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle ac i asesu'r effaith ar y briffordd.

5.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

S/39644	**Bwriad i greu estyniad yn y blaen ac yn y cefn ac ychwanegu ffenestri dormer newydd, cynyddu llinell bresennol y grib i 350mm a newidiadau i oleddf y to yn 43 Heol Pen Llwyn Gwyn, Bryn, Llanelli, SA14 9UH;**
S/39750	**1) Estyniad unllawr newydd y tu cefn, 2) dymchwel y garej, ystafell aml-bwrpas a'r sied presennol a chreu estyniad ar y llawr gwaelod i ddarparu cegin/ystafell fwyta ac ystafell aml-bwrpas newydd yn eu lle. 3) dymchwel portsh mynediad ochr presennol ac adeilad portsh mynediad newydd yn ei le yn 37 Oaklands, Llanelli, SA14 8DE**

6. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

6.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio'r cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-

W/39590	**Bwriad i newid defnydd y tir o dir pori i wersyllfa - i gynnwys 1 cwt bugail moethus a phum pabell yn Penrhiwsych, Glantren Lane, Llanybydder, SA40 9SA** Y RHESWM: Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle ac asesu'r effaith ar y briffordd. Cafwyd sylw a wrthwynebai'r cais ac a ailadroddai'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys pryderon mewn perthynas â'r canlynol: • Mae'r lôn sy'n arwain i'r safle yn gul ac ond ychydig o leoedd pasio sydd ar gael. • Mae'r rheiny sy'n defnyddio'r lonydd yn aml yn defnyddio mynedfeydd preifat megis lleoedd pasio ac yn achosi rhwystr; • Mae cerbydau'n rhwystro lôn oherwydd eu bod yn gorfod aros hyd nes bod gatiau trydan y safle'n agor. • Mynediad acíwt o'r lôn i'r safle; • Pryderon yn ymwneud â diogelwch a cholli preifatrwydd. Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu a'r Uwch-dechnegydd (Cydgysylltydd Cynllunio Priffyrdd) i'r materion a godwyd.

6.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

W/37398	**Cais am adeiladu un breswylfa newydd ar dir ger y Glyn, Drefelin, Llandysul, SA44 5XB;**
W/39414	**Darparu dau blot adeiladu ar dir ger Mwynfan, Heol Brynhaul, Pontyates, Llanelli, SA15 5TD;**

W/39441	**Bwriad i agor Canolfan Iechyd a Llesiant Cross Hands yn Uned 1, Parc Maes yr Eithin, Cross Hands, Llanelli, SA14 6SY;** [Noder - Gan fod y Cynghorydd D Jones wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno].
W/39668	**Newid defnydd y siêd defaid ac ŵyn i gynelau cŵn ym Mlaenffrwd, Heol Blaen-y-coed, Trawsmawr, Caerfyrddin, SA33 6EJ**
W/39822	**Estyniad i ddarparu storfa i beiriannau, gwellt a gwasarn yn Nantygelli, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin, SA33 6UT;** [Noder - Gan fod J Thomas, Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Rhanbarth y De] wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno].

7. COFNODION - 12 RHAGFYR 2019

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2019 gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]